**CYD-BWYLLGOR ARDAL O HARDDWCH NATURIOL EITHRIADOL BRYNIAU CLWYD A DYFFRYN DYFRDWY**

Cofnodion cyfarfod o'r Cyd-bwyllgor Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Ruthun, Dydd Gwener, 26 Chwefror 2016 am 9.30 am.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr Derek Butler (CSFf), Hugh Jones (Cadeirydd) (CBSW) a Huw Jones (CSDd).

**HEFYD YN BRESENNOL**

Dirprwy Swyddog Monitro / Cyfreithiwr (CSDd - LJ), Pennaeth Gwasanaethau Cefn Gwlad Sir y Fflint (CSFf - TW), Swyddog AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy (CSDd - HS), Rheolwr Gwasanaethau Cefn Gwlad a Threftadaeth (CSDd - HR), Uwch Swyddog Cefn Gwlad AHNE (CSDd - DS), Uwch Gyfrifydd Rheoli (CSDd - GW), Uwch Swyddog Sicrwydd (CSDd - PO'H) Uwch Swyddog Cyllid (CSDd - HM) a Gweinyddwr y Pwyllgor (CSDd - CIW).

## 1 CYFLWYNIADAU, YMDDIHEURIADAU A DATGAN CYSYLLTIAD

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr B. Attridge (Cyngor Sir y Fflint), Hugh Evans (CSDd), Ian Roberts (CBSW) a Paul Mitchell a Carol Rothewell (CNC).

Ni fu i unrhyw Aelod ddatgan cysylltiad personol na chysylltiad sy'n rhagfarnu ag unrhyw fusnes a oedd i'w ystyried yn y cyfarfod.

Ni chodwyd unrhyw eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

## 2 COFNODION CYFARFOD Y CYDBWYLLGOR A GYNHALIWYD AR 26 MEHEFIN, 2015

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cyd-bwyllgor Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy a gynhaliwyd ar 26 Mehefin 2015.

Cywirdeb:-

Hefyd yn bresennol: - Nodwyd fod Tom Woodall yn cael ei gyflogi gan Gyngor Sir y Fflint ac nid gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Awgrymwyd hefyd bod Martin Howarth yn cael ei restru cyn David Shiel ar y rhestr o swyddogion yn bresennol.

5. Cyfansoddiad Drafft a Chylch Gorchwyl y Bartneriaeth AHNE: - Gofynnodd y Cadeirydd am eglurhad bod y farn a fynegwyd yn nodi ei bod yn "annheg" y dylai

Aelodau Etholedig yr Awdurdod Lleol gael dirprwyon tra bod grwpiau eraill ddim yn cael rhai.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at frawddeg olaf y trydydd paragraff ar dudalen 11 "Ar ben hynny, ni fydd unrhyw ddirprwyo ar swyddogaethau gweithredol yn atal yr Awdurdod ei hun rhag bod yn gyfrifol am y swyddogaethau hynny, a bydd hyn bob amser yn cael ei gadw" a chyfeiriodd at yr angen am eglurhad. Eglurodd y Dirprwy Swyddog Monitro/Cyfreithiwr mai'r Awdurdodau eu hunain sy'n peidio â bod yn gyfrifol am y swyddogaethau o dan sylw. Mewn achos yr Awdurdod yn gofyn i'r Awdurdod arall i gynnal swyddogaeth weithredol ar ei ran, byddai'n dal i gadw'r cyfrifoldeb cyffredinol am gynnal y swyddogaeth benodol. Crynhowyd manylion dirprwyo swyddogaethau gweithredol gan yr Awdurdod gan y DMO/S.

Nodwyd hefyd y dylid diwygio'r cyfeiriad at "Cais Cynllunio", yn y pedwerydd paragraff ar dudalen 11, i ddarllen fel "Pwyllgor Cynllunio".

***PENDERFYNWYD*** *– yn amodol ar yr uchod, derbyn a chymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir.*

## 3 COFNODION CYFARFOD PARTNERIAETH YR AHNE A GYNHALIWYD AR 16 HYDREF, 2015

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Partneriaeth AHNE a gynhaliwyd ar 16 Hydref, 2015.

Amlygodd y Swyddog ANHE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy y prif bwyntiau o fewn y cofnodion a oedd yn cynnwys:-

- Gwerth y Cynllun Arddangos Bathodyn AHNE a oedd wedi ennyn busnesau lleol i gymryd rhan, ac amlinellwyd manteision y cyrsiau.
- Fframwaith a Chylch Gorchwyl yr AHNE. Cytunwyd y dylai tymor swydd ar gyfer Cadeirydd y Partneriaethau fod yn flwyddyn o hyd, a bod aelodau eraill yn cael eu dirprwyo ar gyfer pob categori.
- Ystyriwyd a chytunwyd ar benodi Aelodau i Grwpiau Gweithio mewn Partneriaeth. Mae manylion y pum Gweithgorau wedi eu darparu.
- Bellach roedd gan Gyfeillion AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy 120 o aelodau. Cytunodd y Pwyllgor fod llythyr o ddiolch yn cael ei anfon i Gyfeillion AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn cydnabod y gwaith a wnaed ganddynt. Maent hefyd yn cymeradwyo'r awgrym eu bod yn cael eu gwahodd i roi cyflwyniad i gyfarfod o'r Cydbwyllgor yn y dyfodol, yn amlinellu'r gwaith a wnaed ganddynt.
- Darparwyd manylion o ymweliadau safle, ac amlygwyd pwysigrwydd cynnal y bartneriaeth. Cyfeiriodd y Cadeirydd at werth a manteision cynyddu ymwybyddiaeth. Darparodd Swyddog ANHE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy fanylion o ymweliadau safle i ddod a oedd yn cynnwys ymweliad â Chwarel Aberduna, Yr Wyddgrug.

***PENDERFYNWYD*** *- derbyn y cofnodion.*

## 4 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Mae copi o’r rhaglen waith i’r dyfodol diweddaraf wedi’i ddosbarthu yn flaenorol.

Mae aelodau'r Cydbwyllgor yn ystyried y Rhaglen Waith i'r Dyfodol ac amlygwyd y pwyntiau amlwg canlynol:-

- Mae’r Ymgynghoriad Cyhoeddus ar Gynllun Rheoli AHNE wedi ei gwblhau, ac mae'r ddogfen wedi'i ddosbarthu.
- Mae gwaith wedi cael ei wneud mewn perthynas â'r Strategaeth Gwirfoddoli ac Allgymorth.
- Roedd y Bartneriaeth AHNE wedi’i sefydlu ac y byddai y Cylch Gorchwyl yn cael ei ystyried gan y Cydbwyllgor.
- Roedd Panel y Gronfa Datblygu Cynaliadwy wedi’i benodi, a darparwyd manylion am yr aelodaeth.
- Bellach roedd gan Gyfeillion AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy 120 o aelodau.
- Mae manylion y gwaith a wnaed ar Facebook wedi’u darparu mewn perthynas â Phen-blwydd Bryniau Clwyd yn 30 oed.
- Roedd staff yn mynychu cyfarfodydd Twristiaeth a Datblygu Gwledig mewn perthynas â'r Strategaeth Twristiaeth AHNE.
- Mae'r gweithredu a hyrwyddo llenyddiaeth newydd wedi ei wneud mewn perthynas â'r Rhaglen Newid yn yr Hinsawdd.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cadeirydd, esboniodd y Swyddog ANHE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy nad oedd gwaith wedi cychwyn eto mewn perthynas â'r Prosiect Trefoli, oedd yn golygu mynd i mewn i gytundeb â NEWTRA a Phriffyrdd yr Awdurdod Lleol i barchu natur wledig yr AHNE.

***PENDERFYNWYD** - Derbyn yr adroddiad a nodi’r cynnwys.*

## 5 CEISIADAU CYNLLUNIO AHNE Y PENDERFYNWYD ARNYNT

Crynodeb o Ymgynghoriadau Cynllunio AHNE ar gyfer y cyfnod o fis Ebrill, 2015 i fis Medi 2015 eisoes wedi'u dosbarthu er gwybodaeth.

Ystyriodd y Cydbwyllgor y crynodeb o Ymgynghoriadau Cynllunio AHNE a ddosbarthwyd.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at achosion mewn adroddiadau lle mae pryderon wedi'u mynegi a dewisiadau eraill wedi cael eu hawgrymu. Teimlai y byddai o fantais pe gellid darparu arwydd ynghylch a ydi argymhellion o'r fath wedi cael eu derbyn. Awgrymodd y Swyddog AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy y gellid cyflawni hyn drwy ddefnyddio proses codio lliw. Cefnogodd y Pwyllgor yr awgrym y dylid archwilio Ceisiadau Cynllunio a gyflwynir dros gyfnod o nifer o flynyddoedd, mewn perthynas â'r AHNE a Safle Treftadaeth y Byd, i weld a oeddent wedi cael eu derbyn.

Awgrymodd y Cadeirydd y gellid manteisio ar y cyfle i argymell y gellid defnyddio cyllid Adran 106 gan rai o'r prosiectau.

Eglurodd y Swyddog ANHE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy fod 103 o Geisiadau wedi dod i law. Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddog Cynllunio AHNE Bryniau Clwyd am y gwaith a wnaed mewn perthynas â'r ceisiadau a dderbynnir.

***PENDERFYNWYD** – y dylid derbyn yr adroddiad a nodi a gweithredu'r sylwadau.*

## 6 CYFLWYNIAD EIN TIRWEDD DDARLUNIADWY

Esboniodd yr Uwch Swyddog Hamdden (CSDd) (USH) mai "Ein Tirlun Darluniadwy" a fyddai un o brif ffocws y gwaith ar gyfer y Tîm AHNE dros y saith mlynedd nesaf. Eglurwyd mai dyma'r ail Gais a wnaed i Gronfa Dreftadaeth y Loteri, a oedd yn cynnwys ardal wahanol i'r Cais cyntaf.

Mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri wedi gofyn i faes penodol gael ei nodi a chefnogwyd yr ail Gais. Eglurwyd bod y Prosiect Darluniadwy yn seiliedig ar dirlun ysbrydoledig Dyffryn Afon Dyfrdwy a'i Llwybrau Hanesyddol.

Derbyniodd y Cydbwyllgor gyflwyniad, "Ein Tirwedd Ddarluniadwy", gan yr Uwch Swyddog Hamdden (CSDd) a oedd yn cynnwys gwybodaeth yn ymwneud â "Ein Darluniadwy":-

- Siwrneiau'r Gorffennol.
- Gwerth Treftadaeth.
- Angen Prosiect.
- Partneriaid y Prosiect.
- Yr hyn yr hoffem ei wneud.
- Cymunedau Ymgysylltiol.
- Mynediad i'r Darluniadwy.
- Gwarchod y Darluniadwy.

Dosbarthwyd copi o'r cyflwyniad yn y cyfarfod. Cytunwyd hefyd i fersiwn electronig o'r cyflwyniad gael ei ddosbarthu i Aelodau'r Pwyllgor, ynghyd â chopi o'r crynodeb byr o'r prosiect a fyddai'n cael ei ddosbarthu gyda'r disgrifiad swydd.

Ymatebodd y USH i gwestiwn oddi wrth y Cadeirydd a chadarnhaodd y byddai map llwybr neu raglen waith i'r dyfodol ar gael mewn pryd mewn tua pedair mis ar ddeg. Eglurodd y byddai cyfweliad ar gyfer Rheolwr Prosiect ym mis Ebrill, 2016.

Hysbyswyd yr Aelodau mai AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy a fyddai'n bartner arweiniol ar gyfer y prosiect, gyda chyfrifoldeb a rennir, a fyddai'n cael ei fonitro gan CDL. Rhoddwyd sicrwydd i'r aelodau y byddai adroddiadau diweddaru rheolaidd yn cael eu cyflwyno i'r Cydbwyllgor.

Mae effaith y prosiect ar Ogledd Ddwyrain Cymru, o ran cysylltiadau allgymorth a phrosiect, wedi'u darparu gan yr USH. Amlygodd y Cynghorydd D. Butler y pwysigrwydd o sefydlu cysylltiadau gyda'r gymuned leol ac i ddatblygu Map Reidiau Ardaloedd Gwledig.

Cyfeiriodd y Swyddog ANHE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy at y safon uchel ac amrywiaeth o gysylltiadau cludiant cyhoeddus sydd ar gael yn yr ardal, a

chyfeiriwyd yn arbennig at y gwasanaethau bws lleol a thacsis dŵr. Eglurodd yr USH bod y Prosiect wedi deillio o'r meysydd a nodwyd yn y gwaith o reoli Cynllun Treftadaeth y Byd a Chynllun Rheoli AHNE, lle mae'r cyhoedd wedi mynegi ffafriaeth am deithiau cerdded byr. Pwysleisiwyd y byddai'n bwysig i adeiladu a datblygu ar y wybodaeth a dderbyniwyd gan y cymunedau lleol a oedd wedi dod i law drwy ymgynghoriadau cyhoeddus.

***PENDERFYNWYD** - bod y Cydbwyllgor yn derbyn ac yn nodi cynnwys yr adroddiad.*

## 7 CYLLIDEB Y CYDBWYLLGOR

Dosbarthwyd yr adroddiad yn flaenorol gan yr Uwch Gyfrifydd Rheoli (CSDd) sy’n rhoi manylion sefyllfa monitro cyllideb refeniw yr AHNE ar gyfer 2015/16 yn ogystal â'r gyllideb arfaethedig ar gyfer 2016/17.

Mae'r UGRh, gyda chymorth gan yr Uwch Swyddog Cyllid a Sicrwydd (CSDd), wedi cyflwyno’r adroddiad a oedd yn darparu crynodeb o gyllideb refeniw yr AHNE ar gyfer 2015/16, fel y manylir yn Atodiad 1. Roedd cyllideb gwariant gros yr AHNE yn £420K, gyda’r sefyllfa yn ragolwg gorwariant o £3k. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi crynodeb o'r gyllideb refeniw arfaethedig ar gyfer 2016/17 yn Atodiad 2, sy'n cynnig cyllideb gwariant gros o £440K.

Caiff y gyllideb ei chyflwyno fel 2 ran; Craidd a Rhanbarthol. Mae'r gyllideb Craidd yn ymwneud â'r swyddogaethau hynny sy'n isafswm swm cyfredol sy'n ofynnol i weithredu'r gweithgareddau AHNE yn ystod y flwyddyn gyfredol. Eglurwyd y gall y gyllideb amrywio o flwyddyn i flwyddyn yn dibynnu ar gyllid allanol a mewnol. Mae'r gyllideb Ardal yn ymwneud â gwariant i gyflawni prosiectau yn y gwahanol ardaloedd ALl o’r AHNE. Gallai'r gyllideb gynnwys staff nad ydynt yn rhai craidd yn gweithio ar brosiectau penodol yn yr AHNE yn ystod y flwyddyn. Bydd y gyllideb hon yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn a hyd yn oed o fewn y flwyddyn yn dibynnu ar gynnydd y prosiect a ffynonellau cyllid.

Mewn ateb i gwestiwn gan y Cadeirydd, eglurwyd bod y codiad gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi ei gynnwys yn y cronfeydd wrth gefn.

Hysbyswyd yr Aelodau fod y ffigyrau Yswiriant Gwladol a Phensiynau wedi cael eu hymgorffori yn y ffigurau yn Atodiad 2. Fodd bynnag, nid yw lwfans ar gyfer dyfarniad cyflog wedi ei gynnwys. Cadarnhawyd y gallai hyn fod yn oddeutu 1%. Hysbyswyd y Pwyllgor bod lwfans wedi cael ei gynnwys ar gyfer y posibilrwydd o gynnwys swydd Partneriaeth Gymunedol.

Cyfeiriodd y Cynghorydd H.Ll. Jones at y gyllideb o £1.5k ar gyfer gwisgoedd ar gyfer 2016/17, a oedd wedi'u cynnwys yn Atodiad 2. Rhoddodd y Swyddog ANHE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy fanylion dyraniad o’r gyllideb mewn perthynas â nifer y staff. Hysbysodd y Swyddog ANHE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy y Pwyllgor y bu cynnydd o £1.4k mewn perthynas â'r tanysgrifiadau i Gymdeithas Genedlaethol y AHNEau

Roedd manylion risgiau posib a'r broses ymgynghori a gynhaliwyd wedi'u hymgorffori yn yr adroddiad.  Cadarnhawyd y gallai unrhyw newidiadau i lefelau incwm beri risg i gyflwyno prosiectau yn y dyfodol a'r gallu i gyflawni yn erbyn y blaenoriaethau yn y Cynllun Rheoli AHNE.

***PENDERFYNWYD*** *- bod y Cydbwyllgor:-*

*(a) yn nodi'r cynnydd yn erbyn strategaeth y gyllideb y cytunwyd arni ar gyfer y flwyddyn ariannol eleni, fel yn Atodiad 1, ac yn*
*(b) cymeradwyo cyllideb arfaethedig 2016/17*

**8 SWYDD BOSIBL PARTNERIAETH GYMUNEDOL CYFOETH NATURIOL CYMRU**

Cafodd adroddiad gan yr Uwch Swyddog Cefn Gwlad (CSDd) ei ddosbarthu yn flaenorol am y potensial i sefydlu Swydd Partneriaeth Gymunedol ar gyfer rhan ddeheuol yr AHNE mewn partneriaeth â Chyfoeth Naturiol Cymru.

Hysbyswyd y Cydbwyllgor gan yr Uwch Swyddog Cefn Gwlad bod penderfyniad wedi cael ei geisio i sicrhau bod adnoddau ar gael er mwyn cael arian cyfatebol ar gyfer Swydd ar y cyd rhwng AHNE – CNC.   Ers 2011 mae AHNE Bryniau Clwyd wedi ei ymestyn i ymgorffori Dyffryn Dyfrdwy, ac ers 2011 nid oes unrhyw adnodd staffio ychwanegol wedi bod i helpu ddatblygu cysylltiadau gyda'r cymunedau hyn i gwrdd â'r potensial i ddatblygu gwaith prosiect.  Felly, mae'n fwy anodd i'r cymunedau hyn gael mynediad at y manteision a ddaw yn sgil bod yn rhan o'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol.

Ar hyn o bryd mae gan yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol drefniant partneriaeth gyda thimau gweithredol Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhan ganolog o Fryniau Clwyd, o amgylch ystâd goedwig Cyfoeth Naturiol Cymru ym Moel Famau, Nercwys a Llangwyfan.   Mae'r swydd Ceidwad Cymunedol a ariannwyd mewn partneriaeth ar y cyd wedi bod yn llwyddiannus wrth ddatblygu nifer o brosiectau cymunedol o amgylch bioamrywiaeth, pobl ifanc ac ysgolion, sgiliau a gwelliannau mynediad, ac wedi cyrraedd cymunedau yn Sir y Fflint a Sir Ddinbych.

Mae yna botensial i ehangu'r bartneriaeth hon i Ddyffryn Dyfrdwy am gyfnod o 2 flynedd ac i greu Swydd Ceidwad Partneriaeth arall i weithio'n benodol gyda chymunedau o rannau newydd yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol.  Roedd CNC wedi dyrannu adnoddau i ariannu'r swydd yn rhannol ac roeddent yn awyddus i ehangu'r bartneriaeth i ardal ddeheuol yr AHNE.  Byddai'r Swydd yn caniatáu i'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol ddatblygu gwaith prosiect gyda'r cymunedau yn y rhan newydd o'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol, yn arbennig allbynnau gan gynnwys:-

- Datblygu Ceidwaid Ifanc ar gyfer Dyffryn Dyfrdwy
- Cyfleoedd i wirfoddoli
- Hyfforddiant mewn sgiliau traddodiadol
- Prosiectau cadwraeth bywyd gwyllt cymunedol.
- Prosiectau ysgol
- Gwelliannau mynediad - teithiau cerdded cylchol

Byddai cost y swydd Warden yn gyfraniad gan CNC o £12,000 y flwyddyn am ddwy flynedd, gyda £12,000 y flwyddyn am ddwy flynedd yn cael ei geisio gan yr AHNE. Mae manylion y bwriad a chanlyniad yr Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

Teimlai'r Cynghorydd D. Butler ei fod wedi bod yn gam rhagweithiol i hyrwyddo'r swydd a mynegodd ei gefnogaeth ar gyfer y penodiad.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cadeirydd, cadarnhaodd y swyddogion bod adnoddau digonol wedi cael eu neilltuo i gefnogi ymgymryd â'r gwaith cysylltiedig.

***PENDERFYNWYD*** *- bod y Cydbwyllgor yn darparu adnoddau i gyd-fynd â chyfraniad cyfatebol o gronfa CNC at Swydd Partneriaeth.*

**9 CYLCH GORCHWYL A FFRAMWAITH PARTNERIAETH YR AHNE A DIWEDDARU A PHLETHU AG ADRODDIAD CYTUNDEB CYFREITHIOL Y CYDBWYLLGOR**

Dosbarthwyd adroddiad yn flaenorol gan Swyddog AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy (CSDd).

Eglurodd y Swyddog ANHE bod y ddogfen newydd wedi cael ei hadolygu eto gan Swyddogion Gweithgor AHNE ar 10 Medi, 2015. Ymgynghorwyd â Phartneriaeth AHNE ar 16 Medi, 2015, ac ail-ymgynghorodd y Cyd-bwyllgor ar 22 Medi, 2015. Mae'r Cyfansoddiad a'r Cylch Gorchwyl diwygiedig wedi ei gynnwys fel Atodiad 1 i'r adroddiad.

Eglurodd y Swyddog AHNE fod Aelodau'r Bartneriaeth yn bartneriaid allweddol wrth gyflwyno'r Cynllun Rheoli, ac y byddai'r ddogfen ddiwygiedig yn cyfrannu tuag at lywodraethu effeithiol. Hysbyswyd y Cydbwyllgor mai sero fyddai'r gost, ac eithrio amser swyddogion, a bod copi o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EqIA) a wnaed ar y penderfyniad wedi ei gynnwys fel Atodiad 2 i'r adroddiad.

Mewn ateb i gwestiwn gan y Cadeirydd, cadarnhawyd y byddai gofyniad i gydymffurfio â'r Safonau Iaith Gymraeg a chadarnhaodd Cyfreithiwr (CSDd) y gallai hyn gael ei gynnwys yn y ddogfen.

Gwnaeth y Swyddog ANHE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy gyfeirio'n benodol at y Pwyntiau canlynol o fewn Atodiad 2:-

- Pwynt 5 - y frawddeg "Nid yw'r Cydbwyllgor hwn yn gorff allanol". Pwysleisiodd y Cyfreithiwr (CSDd) nad oedd y Cydbwyllgor a Phartneriaeth AHNE yn gorff allanol, ond bod Cydbwyllgor o'r tri Awdurdod perthnasol. Tynnodd y Swyddog ANHE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy sylw'r Aelodau at Atodiad 2, sef y Diagram o Strwythur AHNE.

- Pwynt 16 - Cytunwyd bod Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Bartneriaeth yn cael eu hethol gan y Bartneriaeth AHNE llawn am gyfnod o 1 flwyddyn. Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd D. Butler, cadarnhaodd y Swyddog

ANHE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy bod cytundeb wedi’i wneud y gallai unrhyw Aelod o'r Bartneriaeth gael ei benodi/phenodi'n Gadeirydd neu Is-gadeirydd.

- Pwynt 26 - Cael ei ddiwygio i ddarllen fel "Mae’r Swyddog AHNE a Swyddog CNC gyda’r awdurdod dirprwyol i benderfynu ceisiadau am grantiau o hyd at £3000".

Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd dyma’r Cadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor yn diolch i'r swyddogion am y gwaith a wnaed.

***PENDERFYNWYD*** *- bod y Cydbwyllgor yn cefnogi Fframwaith a Chylch Gorchwyl y Bartneriaeth AHNE.*

**10 ADRODDIAD CYNLLUN DIRPRWYO CYNLLUNIO AHNE**

Mae adroddiad a ddosbarthwyd yn flaenorol gan y Swyddog ANHE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn galluogi'r Cydbwyllgor i ymateb mewn modd amserol, effeithiol ac effeithlon i ymgynghoriadau cynllunio, gan yr Awdurdodau awdurdodau cyfansoddol.

Eglurodd y Swyddog ANHE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy mai un o swyddogaethau'r Cydbwyllgor ar gyfer AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yw ymateb i ymgynghoriadau cynllunio a datblygu y cyfeirir at yr AHNE am sylwadau. Mae'r rhan fwyaf o ymgynghoriadau yn ymwneud â chynigion yn yr AHNE, ond maent hefyd yn cynnwys y rhai y tu allan i'r ardal ddynodedig sydd o fewn lleoliad y dirwedd warchodedig all effeithio ar yr AHNE.

Darparodd Swyddog ANHE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy Gyd-Gynllun Dirprwyo Ymgynghoriadau Cynllunio a Datblygu AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

Hysbyswyd yr Aelodau fod y Cyd-Gynllun Dirprwyo Ymgynghoriadau Cynllunio a Datblygu AHNE wedi gosod fframwaith ar gyfer yr AHNE i gynyddu nifer y Ymgynghoriadau Cynllunio y mae'n cyfrannu ato. Cadarnhawyd mai sero fyddai’r gost, ac eithrio amser swyddogion, a bod y Swyddog AHNE wedi ymgynghori gydag adran Gyfreithiol Sir Ddinbych i wirio bod Swyddogion AHNE yn cyfarfod ac yn dilyn y gweithdrefnau cyfreithiol cywir.

Ar hyn o bryd mae Swyddog Cynllunio AHNE yn derbyn dros 150 o geisiadau bob blwyddyn; mae hyn wedi cynyddu 50% ers ymestyn yr AHNE i Ddyffryn Dyfrdwy. Fodd bynnag, dim ond 2 ddiwrnod yr wythnos wnaeth Swyddog Cynllunio AHNE ei weithio oni bai na ellid ymateb i ddirprwyo ychwanegol o fewn modd amserol i roi cynigion cynllunio a datblygu.

Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd dyma’r Cadeirydd yn diolch i'r swyddogion am y gwaith a wnaed o ran y Ceisiadau a dderbyniwyd.

***PENDERFYNWYD*** *- bod y Cydbwyllgor yn mabwysiadu'r Cynllun Dirprwyo i Ymgynghoriadau Cynllunio a Datblygu fel yn Atodiad 1 i'r adroddiad.*

## 11 ADRODDIAD YMGYNGHORIAD AR Y CYNLLUN RHEOLI

Roedd adroddiad gan yr Uwch Swyddog Cefn Gwlad wedi'i ddosbarthu'n flaenorol ar yr ymgynghoriad ar Gynllun Rheoli AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy.

Hysbyswyd y Cydbwyllgor gan yr USCG bod angen penderfyniad i fabwysiadu'r Cynllun Rheoli AHNE yn ffurfiol. Daeth y cyfnod ymgynghori ar gyfer Rheoli AHNE i ben ym mis Awst 2015, ac roedd y Cynllun Rheoli wedi'i ddiwygio lle bo hynny'n briodol, yn unol â'r ymatebion a dderbyniwyd. Cafodd yr Adroddiad Ymgynghori ei gynnwys gyda'r rhaglen.

Eglurodd yr USCG bod gan yr Awdurdodau Lleol ddyletswydd statudol o dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 i gynhyrchu Cynllun Rheoli a'i adolygu bob 5 mlynedd. Mae'r Cynllun yn gosod agenda ar gyfer rheoli'r AHNE yn unol â Rhinweddau a Nodweddion Arbennig a nodwyd, ac wedi'i wneud o Strategaeth Rheoli, Adroddiad ar Gyflwr yr AHNE a Chynllun Gweithredu 5 Mlynedd.

Eglurwyd bod y Cynllun Drafft wedi cael ei ystyried gan y Bartneriaeth AHNE yn ei gyfarfod ar 15 Mai, 2015. Cafwyd cadarnhad bod adnoddau wedi eu nodi i gyhoeddi'r Cynllun o fewn y gyllideb gyffredinol, a byddai'r gwariant yn cael ei fonitro gydag unrhyw amrywiadau yn cael eu hadrodd trwy'r broses o fonitro'r gyllideb. Mae risg i enw da'r AHNE a'r Awdurdodau Lleol gyda methiant i gyhoeddi'r Cynllun Rheoli Statudol, gan y gallai cyllid gan CNC a Llywodraeth Cymru gael ei dynnu'n ôl.

Canmolodd y Cynghorydd D. Butler yr adroddiad a'r gwaith a wnaed, a mynegodd y farn y bydd y lliwiad a'r ffotograffau a ddefnyddir wedi darparu blas o'r ardal.

Yn dilyn trafodaeth bellach:-

***PENDERFYNWYD*** *- bod y Cydbwyllgor yn mabwysiadu'n ffurfiol Cynllun Rheoli AHNE 2014 - 2019.*

## 12 DYHEADAU DYFFRYN CEIRIOG I'W GYNNWYS YN YR AHNE

Eglurodd y Cadeirydd ei fod wedi derbyn gohebiaeth gan sefydliadau amrywiol yn Nyffryn Ceiriog, gan gynnwys Cynghorau Cymuned, yn gofyn am gefnogaeth y Cydbwyllgor ar gyfer cynnwys Dyffryn Ceiriog yn yr AHNE.

Eglurodd fod yr ohebiaeth a dderbyniwyd yn gofyn y dylid ceisio barn Aelodau ar y posibilrwydd fod y Pwyllgor, fel Cydbwyllgor statudol, yn cyflwyno adroddiad i'r corff priodol gan wneud argymhellion i gynnwys Dyffryn Ceiriog yn yr AHNE. Mynegodd y Cynghorwyr H.Ll. Jones a D. Butler y farn y byddai hyn yn fater adnoddau.

Eglurodd y Swyddog ANHE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy y byddai'n rhan o gylch gwaith Cyfoeth Naturiol Cymru i wneud argymhellion o'r fath, ac i Lywodraeth Cymru i gymeradwyo'r argymhellion. Cyfeiriodd at yr ardal helaeth dan sylw a barn a fynegir gan eraill sydd â diddordeb, megis Cyngor Sir Powys a chymunedau ffermio, a lefel y gefnogaeth y gellid eu sicrhau.

Eglurwyd gan Swyddog ANHE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy y byddai angen yr egwyddor yn yr achos hwn i ddeillio o Lywodraeth Cymru, a oedd ar hyn o bryd yn adolygu tirweddau gwarchodedig. Teimlai y gellid mewn egwyddor gynnig cefnogaeth gan y Cydbwyllgor pe bai Aelodau yn dymuno hynny, ac awgrymodd y gallai'r mater gael ei ddilyn gan geisio cael cefnogaeth Aelodau'r Cynulliad perthnasol a Gweinidogion Llywodraeth Cymru.

Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd, cytunwyd bod ymatebion yn cael eu hanfon, mewn ymateb i'r ohebiaeth a dderbyniwyd, gan esbonio bod y cais wedi cael ei drafod a'u bod yn deall rhinweddau'r achos. Fodd bynnag, mae pryderon wedi'u mynegi gan y Pwyllgor fod y mater hwn wedi bod yn seiliedig ar adnoddau. Roedd Aelodau hefyd wedi nodi bod Llywodraeth Cymru wrthi'n cynnal adolygiad o dirweddau dynodedig, ac y gallai'r cyswllt priodol fod trwy Aelodau'r Cynulliad neu Weinidogion Llywodraeth Cymru. Cadarnhaodd y Swyddog ANHE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy y byddai swyddogion yn hapus i gysylltu a gweithio gyda Phartneriaeth Y Waun a Dyffryn Ceiriog.

***PENDERFYNWYD** - bod y Cydbwyllgor yn cytuno:-*

*(a) derbyn yr adroddiad a nodi'r safbwynt;*
*(b) bod ymatebion yn cael eu hanfon, fel y cytunwyd gan y Pwyllgor, yn ymateb i'r ohebiaeth a dderbyniwyd, a*
*(c) bod swyddogion yn cysylltu ac yn gweithio gyda Phartneriaeth Y Waun a Dyffryn Ceiriog.*

**13 DYDDIADAU CYFARFODYDD Y DYFODOL**

Ystyriwyd y dyddiadau canlynol ar gyfer cyfarfodydd y dyfodol o Gydbwyllgor Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy:-

17 neu 24 Mehefin, 2016
18 neu 25 Tachwedd, 2016

Cytunodd y Pwyllgor fod Swyddog AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn cysylltu ag Aelodau'r Cydbwyllgor a chytuno ar ddyddiadau addas.

Hysbysodd y DMO/S yr Aelodau mai cyfarfod nesaf y Cydbwyllgor fydd y cyfarfod blynyddol, a byddai'r agenda yn cynnwys eitem fusnes yn ymwneud â Phenodi Cadeirydd y Cydbwyllgor ar gyfer y flwyddyn ddilynol.

***PENDERFYNWYD :-***

*(a) Bod Swyddog AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn cysylltu ag Aelodau o'r Pwyllgor ac yn cytuno ar ddyddiadau addas ar gyfer cyfarfodydd Cydbwyllgor AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn y dyfodol, a*
*(b) bod yr agenda ar gyfer cyfarfod mis Mehefin, 2016 yn cynnwys eitem fusnes yn ymwneud â Phenodi Cadeirydd y Cydbwyllgor am y flwyddyn ddilynol.*

Daeth y cyfarfod i ben am 11.10am.